

## Dull Hawliau Plant

Adnodd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Egwyddor 1	Sicrhau fod hawliau plant yn ganolog i'ch gwaith, o ran cynllunio a gweithredu. Gallwch wneud y pethau canlynol i sicrhau hyn:				
<p><b>Amcanion</b></p>	<p>Ewch drwy eich cynllun gwaith/cynllun strategol. Ydy'r cynllun yn cysylltu elfennau o'ch gwaith gyda hawliau plant? Os na, sut allwch chi newid hyn?</p>	<p>Sicrhewch fod gan arweinyddion a staff dealltwriaeth dda o hawliau plant, a helpwch nhw i ddeall sut gall hawliau plant ddatblygu a chyfoethogi gwaith eich sefydliad.</p> <p>Gall <a href="#">ein canllaw hawliau plant</a> eich helpu.</p>	<p>Defnyddiwch <a href="#">ein hadnoddau</a> i addysgu eich cydweithwyr am hawliau plant.</p>	<p>Dewisiwch berson neu ffurfiwch fîm sydd â chyfrifoldeb dros hyrwyddo hawliau plant o fewn eich gwaith, a sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau eich bod yn anelu at y targedau rydych chi'n eu nodi wrth gwblhau'r adnodd hwn.</p>	<p>Sicrhewch fod gennych ddigon o bobl ac arian er mwyn hyrwyddo a chefnogi hawliau plant. Gwyliwch y fideo yma am fwy o wybodaeth.</p>
<p><b>Gwnech asesiad o'ch sefydliad ar hyn o bryd trwy ddefnyddio'r system Coch/Oren/Gwyrdd</b></p>					
<p><b>Nodwch darged i wella trwy ddefnyddio'r system SMART (Sbesifffig; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei fesur; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei gyflawni, Realistig; Rhywbeth sydd â therfyn amser)</b></p>					
<p><b>Pwy sy'n arwain?</b></p>					

Egwyddor 2	Cydraddoldeb a pheidio gwahaniaethu - gwneud yn siwr bod gan bob plentyn cyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial llawn.				
Amcanion	Cynnwys ymrwymiad clir i hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn grwpiau sbesiffig o blant yn eich polisiau a chynlluniau	Sicrhau fod staff yn deall y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn derbyn hyfforddiant yn aml er mwyn deall anghenion grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc.	Defnyddiwch 'Asesiad Effaith ar Hawliau Plant' (CRIA) i ystyried sut gall penderfyniadau unigol (e.e. prosiectau, polisiau) effeithio ar grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc. <a href="#">Anfonwch ebost</a> cyflym atom i dderbyn templed CRIA.	Defnyddiwch unrhyw wybodaeth sydd gennych am yr rhai sy'n defnyddio eich gwasanaeth er mwyn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaeth yn hygyrch i grwpiau gwahanol. Ydych chi angen casglu mwy o ddata er mwyn dod o hyd i ateb?	Rhowch wybodaeth i blant sy'n addas iddynt, gan ystyried eu hiaith, eu hoed, eu haeddfedrwydd, eu diwylliant, neu os oes ganddynt anabled neu beidio.
Gwnewch asesiad o'ch sefydliad ar hyn o bryd trwy ddefnyddio'r system Coch/Oren/Gwyrdd					
Nodwch darged i wella trwy ddefnyddio'r system SMART (Sbesiffig; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei fesur; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei gyflawni, Realistig; Rhywbeth sydd â therfyn amser)					
Pwy sy'n arwain?					

Egwyddor 3	Grymuso plant - rhoi'r wybodaeth a'r hyder i blant ddefnyddio eu hawliau a dwyn sefydliadau i gyfrif			
<p><b>Amcanion</b></p>	<p>Rhowch wybodaeth hygyrch i blant sy'n dangos iddynt sut i ddefnyddio eu hawliau wrth ddefnyddio eich gwasanaeth. <a href="#">Dyma enghraifft o siarter</a> i'ch helpu.</p>	<p>Sicrhewch fod gan blant y wybodaeth maen nhw angen i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw (e.e. adroddiadau gyda iaith syml). <a href="#">Dyma adroddiad gyhoeddus ni</a> gyda iaith syml a symbolau.</p>	<p>Rhowch gyfleoedd i blant i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw (e.e. rhoi'r cyfle i grwp o bobl ifanc i ofyn cwestiynau i berson uchel ei statws yn uniongyrchol)</p>	<p>Rhowch gyfleoedd i grwpiau o bobl ifanc i graffu ar eich gwaith yn gyson, e.e. trwy grwpiau/fforymau ieuenctid, neu gallwch hefyd ystyried ffurfio panel ifanc eich hun. Rhowch y wybodaeth a'r hyfforddiant sydd angen arnyn nhw er mwyn craffu ar eich gwaith yn effeithiol. <a href="#">Gall ein hadnoddau</a> eich helpu chi.</p>
<p>Gwnewch asesiad o'ch sefydliad ar hyn o bryd trwy ddefnyddio'r system Coch/Oren/Gwyrdd</p>				
<p>Nodwch darged i wella trwy ddefnyddio'r system SMART (Sbesiffig; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei fesur; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei gyflawni, Realistig; Rhywbeth sydd â therfyn amser)</p>				
<p>Pwy sy'n arwain?</p>				

Egwyddor 4	Cyfranogaeth – gwrandewch ar blant a phobl ifanc a chymryd o ddifrif eu barn (fel a nodwyd yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant). Gwnewch y canlynol i alluogi plant i gymryd rhan.				
Amcanion	Sut ydych chi'n gwrando ar blant a phobl ifanc ar hyn o bryd? Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth maen nhw'n rhoi i chi? Ystyriwch gwendidau a chyfleoedd.	Sicrhewch fod plant yn rhan o ddylunio, monitro, a gwerthuso'r gwasnaethau maen nhw'n eu derbyn gennych. <a href="#">Darllenwch am waith sefydliadau eraill.</a>	Datblygwch dargedau clir i'ch helpu i wrando ar blant a phobl ifanc sy'n rhan o grwpiau sydd fel arfer yn cael llai o gyfleoedd i ddweud eu dweud.	Gwnewch blant yn rhan o'r broses o recriwtio staff newydd sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio ar blant.	Defnyddiwch <a href="#">y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol</a> i Gymru.
Gwnewch asesiad o'ch sefydliad ar hyn o bryd trwy ddefnyddio'r system Coch/Oren/Gwyrdd					
Nodwch darged i wella trwy ddefnyddio'r system SMART (Sbesiffig; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei fesur; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei gyflawni, Realistig; Rhywbeth sydd â therfyn amser)					
Pwy sy'n arwain?					

<p><b>Egwyddor 5</b></p>	<p><b>Atebolrwydd – mae sefydliadau ac aelodau unigol o staff sy'n gweithio gyda phlant yn 'ddeiliaid dyletswydd' (LINK) a dylid eu dwyn i gyfrif am ba mor dda y maent yn cefnogi plant i gael mynediad at eu hawliau. Gwnewch y canlynol i fod yn atebol i blant.</b></p>			
<p><b>Amcanion</b></p>	<p><b>Sicrhewch fod staff yn deall y cyfrifoldebau sydd ganddynt</b> sy'n ymwneud â hawliau plant, trwy nodi hyn mewn swydd ddisgrifiadau a pholisiau sy'n rheoli gweithredoedd staff. Dylai staff drafod hyn fel rhan o'u cyfarfodydd gyda rheolwyr llinell.</p>	<p>Cyhoeddwch ddiweddariad blynyddol sy'n dangos sut rydych chi wedi datblygu eich gwaith ar Ddull Hawliau Plant a rhannwch e gyda phlant a phobl ifanc mewn fformat sy'n addas iddynt.</p>	<p>Rhowch adborth i blant yn gyson, mewn fformat addas. Gallwch ddefnyddio'r dogfen 'Dywedoch chi, Gwnaethom Ni' i'ch helpu.</p>	<p>Rhowch wybodaeth clir i blant ar sut i gwyno, neu i ddal staff i gyfrif.</p>
<p><b>Gwnewch asesiad o'ch sefydliad ar hyn o bryd trwy ddefnyddio'r system Coch/Oren/Gwyrdd</b></p>				
<p><b>Nodwch darged i wella trwy ddefnyddio'r system SMART (Sbesiffig; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei fesur; Rhywbeth rydych chi'n gallu ei gyflawni, Realistig; Rhywbeth sydd â therfyn amser)</b></p>				
<p><b>Pwy sy'n arwain?</b></p>				